TGAU Hamdden a Thwristiaeth

Beth mae'r cwrs yn ei gynnig i mi?

Annog myfyrwyr i:

- Gymryd rhan mewn astudiaethau Hamdden a Thwristiaeth a'u datblygu fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol ac fel unigolion beirniadol ac adfyfyriol gyda meddylfryd ymholol.
- Deall natur y diwydiant Hamdden a Thwristiaeth.
- Datblygu dealltwriaeth o'r cyfraniad mae Hamdden a Thwristiaeth yn ei wneud i'r gymdeithas.
- Datblygu ymwybyddiaeth bod materion iechyd a diogelwch yn dyngedfennol i Hamdden a Thwristiaeth.
- Datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddatblygiad cynaliadwy a materion amgylcheddol.
- Gwerthfawrogi amrywiaeth ac adnabod y tebygrwydd a'r gwahaniaethau mewn ymddygiad a diwylliant mewn cymdeithasau.
- Datblygu eu cyfleoedd i esgyn mewn cyflogaeth o fewn y diwydiant Hamdden a Thwristiaeth neu gymhwyster lefel uwch yn y sectorau perthnasol.

Sut fyddai'n dysgu?

- Tasgau ysgrifenedig.
- Ymweliadau â sefydliadau Hamdden a Thwristiaeth.
- Cyflwyniadau grŵp ac unigol.
- Gwaith ymchwil grŵp ac unigol.

Sut fyddai'n cael fy asesu?

Mae 2 uned i'r cymhwyster.

Uned 1 – Darpariaeth Hamdden a Thwristiaeth mewn ardal ddewisol.
Asesiad dan reolaeth - Dewis helaeth o dasgau gorchmynnol i'w cwblhau o fewn 8 – 10 awr dan oruchwyliaeth. (60%)

Uned 2 – Arholiad – Lleoliadau Hamdden a Thwristiaeth.
Papur ysgrifenedig (1 awr a 30 munud).
Rhan A – Cyfres o gwestiynau byr.
Rhan B - Cyfres o gwestiynau byr a chwestiynau gydag atebion ymestynnol yn seiliedig ar astudiaethau achos. (40%)

Cofiwch!

- Bydd cyfleon eleni i ddisgyblion Hamdden a Thwristiaeth a Daearyddiaeth ar y cyd i brofi gwaith maes lleol a thramor.
- Mae Hamdden a Thwristiaeth yn bwnc sydd yn hanfodol i sawl maes cyfoes yn y byd.

Am wybodaeth pellach cysylltwch â:

Mrs. Nest Williams

Ysgol Eifionydd Porthmadog